Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
National Assembly for Wales | Research Service

P-05-914 Mynediad cyfartal i ofal iechyd ar gyfer yr anabl

Y Pwyllgor Deisebau | 19 Tachwedd 2019
Petitions Committee | 19 November 2019

Cyfeirnod: RS19/10865-4

Rhagarweiniad

Rhif y ddeiseb: P-05-914

Teitl y ddeiseb: Mynediad cyfartal i ofal iechyd ar gyfer yr anabl

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn ofyniad cyfreithiol i bob meddygfa teulu gael gwelyau triniaeth a theclynnau codi llydan y gellir eu haddasu at ddefnydd cleifion anabl, fel y gellir eu harchwilio pryd bynnag fo angen.

Cefais fy ngeni â Spinabifida ym 1970 ac, fel goroeswr y clefyd hwn, rwyf wedi fy mharlysu o uwchben y wast i lawr ac yn defnyddio cadair olwyn llawn amser. Yn 2017 cefais ddiagnosis o ganser y bledren cam 4. Ni all gael ei brofi'n gyfreithiol, ond rwy'n credu'n gryf pe bawn i wedi cael fy archwilio yn gynharach yn y blynyddoedd cynt yn fy meddygfa teulu ar wely triniaeth llydan y gellir ei addasu, efallai gyda chymorth teclyn codi, yna ni fyddai'r diagnosis o ganser wedi dod mor hwyr. Ers i mi fod yn edrych ar y mater hwn, mae nifer o fenywod anabl wedi siarad â mi ynglŷn â sut nad oes

ganddynt fynediad cyfartal i brofion ceg y groth oherwydd y broblem hon hefyd. Yn aml, mae pobl yn credu bod cael mynediad i'r anabl yn golygu lifftiau a rampiau yn unig, ond, ym maes gofal iechyd, mae'n llawer mwy cymhleth. Beth am ymuno ynghyd i wneud mynediad i ofal iechyd yn gyfartal i bawb.

Y Cefndir

Mae'r canllawiau perthnasol yng Nghymru (*General medical practice premises*, 2017 - Saesneg yn unig) yn nodi bod yn rhaid ystyried gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb o ran dyluniad a gweithrediad adeiladau gofal iechyd sylfaenol yn y dyfodol, ond dywed hefyd:

> It should be noted, however, that whilst the Act gives legal protection to disabled people against discrimination, it does not make explicit what constitutes discrimination in terms of standards in the built environment.

Mae'r canllawiau yn nodi y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r ardaloedd allanol a'r ffyrdd dynesu at adeilad, gan roi sylw arbennig i gleifion ac ymwelwyr anabl, oedrannus a methedig, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at fannau parcio i'r anabl. Fodd bynnag, nid yw'n sôn am ystafelloedd ymgynghori / triniaeth hygyrch (gyda theclynnau codi ac ati) ar gyfer cleifion anabl.

Mae'r canllawiau'n nodi'n benodol ystyriaethau y dylid eu rhoi i gleifion bariatric ac oedolion ag anableddau dysgu:

> GPs and health boards should consider provision for bariatric patients and adults with learning disabilities. This will depend upon local circumstances. These patients will require additional facilities over and above normal provision. The client should consider the use of one treatment room with specialist lifting equipment, either built into the building structure or provided as a mobile hoist, for these patient groups. The room should be flexible to allow for both groups of patients and for any specialist equipment. The treatment room should also include an en-suite toilet to allow for privacy and dignity.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y canllawiau dylunio *General medical practice premises in Wales 2017*, ac yn dyfynnu'r adran uchod sy'n nodi y dylai meddygon teulu a Byrddau Iechyd ystyried darpariaeth ar gyfer cleifion bariatric ac oedolion ag anableddau dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen i ddweud:

> Dylai pob claf gael mynediad teg i wasanaethau gofal iechyd a dylai'r byrddau iechyd weithio i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion os oes ganddynt anghenion penodol yn sgil anabledd. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd o hyd yw cynllunio sut y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu yn ymarferol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o gomisiynu ac adolygu gwasanaethau meddygon teulu yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion y boblogaeth breswyl yn cael eu diwallu.